CYFRES B12

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd am y Nadolig

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Eseia 9:1-7,
Micha 5:2

ADNOD
ALLWEDDOL
Eseia 9:6

Gwers 1 Gorfoledd y Nadolig! – Addewidion Duw.

Pe baech chi'n gwybod bod rhywun enwog yn dod i'ch ardal, ond heb yn wybod pryd yn union, fe fyddech yn awyddus i ganfod gymaint o'r manylion â phosibl, er mwyn bod yn barod ar gyfer ei ymweliad. Gwyddai'r Iddewon fod person pwysig iawn ar ddod - y Meseia neu Grist - ond doedden nhw ddim yn gwybod pryd yn union. Roedd eu proffwydi, oedd yn byw ganrifoedd ynghynt, wedi ysgrifennu Amdano, ac roedd modd i'r Iddewon ddarllen am Ei ddyfodiad, yn union fel y gwnaethoch chi nawr yn y Darlleniad o'r Beibl.

Pwy oedd yn dod?

C Llanwch y bylchau â'r llythrennau coll (a, e, i, o, u, w, y) i ganfod un o'r addewidion hyn.

C_n_s B_chg_n _ _n_ _d _ n_,

M_b _ r_dd_ _d _ n_.

2

C Ysgrifennwch isod, a marciwch ar y map, enw'r ardal y byddai'r Meseia yn dod iddi ac enw'r afon y byddai Ef yn cerdded ar hyd ei glannau.

Ardal: G

Afon: I



2

CHWILAIR

Byddai gan y Meseia nifer o enwau neu deitlau. Yn y Chwilair, rhowch gylch o amgylch yr enwau sydd i'w gweld yn y Darlleniad o'r Beibl. Maent wedi eu cuddio i fyny, i lawr, ar draws, yn groeslinol, ymlaen a thuag yn ôl. Mae'r cyntaf wedi'i wneud drosoch.

R	F	C	T	H	E	R	L	R
W	T	T	Y	W	Y	S	O	G
R	L	A	I	O	U	L	TH	L
O	R	NG	G	D	O	L	Y	L
H	J	N	H	DD	R	E	B	E
NG	S	E	E	U	E	S	D	S
Y	S	F	Y	C	W	N	A	N
C	Y	E	G	R	U	U	T	U
RH	H	DD	C	A	D	A	R	N

Rhyfeddol / Cynghorwr / Tad bythol
Duw cadarn / Tywysog Tangnefedd

8

Aildrefnwch y llythrennau canlynol er mwyn gweld enw arall am y Meseia ac ysgrifennwch yr ateb isod.

RY DDAGLYWR UEIS TGIRS

_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

C **Am ba hyd y bydd y Meseia yn teyrnasu? Tanlinellwch yr ateb cywir.**

30 diwrnod 30 mlynedd Am byth

1

C **Ar orsedd pwy y bydd Ef yn teyrnasu? Ticiwch y blwch wrth ymyl yr ateb cywir**

Eleias ❑ Dafydd ❑ Moses ❑

1

C **Edrychwch ar Micha 5:2 ac ysgrifennwch enw'r dref fechan yng ngwlad Jwda o'r lle y byddai'r Llywodraethwr hwn yn dod.**

1

GRID GEIRIAU

Gan ddefnyddio Eseia 9: 2, gosodwch yr atebion i'r cwestiynau canlynol yn y Grid Geiriau.



1. Pwy welodd y goleuni? (2 air)
2. Roedden nhw'n _ _ _ _ _ mewn tywyllwch
3. Gwelodd y bobl _ _ _ _ _ _ __ golau.
4. Roedd y bobl yn byw mewn gwlad o _ _ __ _ _
5. Y gair a ddefnyddir i ddisgrifio caddug (tywyllwch)

Pan oedd yr Arglwydd Iesu yn byw ar y ddaear, dywedodd mai Ef yw Goleuni'r byd (Darllenwch Ioan 8:12)

5

Rydym yn gwybod mai'r Arglwydd Iesu yw'r Meseia, neu'r Gwaredwr a addawodd Duw. Byddwn yn dathlu Ei enedigaeth ar Ddydd Nadolig. Er bod yr Iddewon yn disgwyl Amdano, roedd llawer ohonynt yn gwrthod cydnabod mai Iesu yw'r Meseia. Hyd yn oed heddiw, mae llawer heb gydnabod mai Iesu yw canolbwynt y dathlu adeg y Nadolig (mae'r gair Saesneg 'CHRIST-mas' yn datgan mai Gŵyl yr Iesu yw hon) ac mai Ef ddylai gael y lle blaenaf yn ein calonnau a'n bywydau.

Enw

DARLLENWCH
Luc 1: 26-38

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 1: 32

Gwers 2 Gorfoledd y Nadolig! – Syndod Mair!

Pe baech yn gweld angel yn ymddangos ar amrantiad, byddech yn siŵr o gael sioc! Pan ddewisodd Duw ferch ifanc Iddewig i roi genedigaeth I'w Fab, anfonodd angel i ddweud wrthi am y Baban fyddai'n cael Ei eni.

C Edrychwch ar adnodau 26 a 27 a thanlinellwch yr atebion cywir i'r cwestiynau canlynol.

Beth oedd enw'r angel?	Michael / Gabriel / Dafydd
Beth oedd enw'r ferch ifanc?	Mair / Elisabeth / Anna
Ble'r oedd hi'n byw?	Jerwsalem / Nasareth / Bethlehem
Pwy oedd hi'n mynd i briodi?	Aaron / Sechareias / Joseff

4

C YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch sut roedd Mair yn teimlo pan siaradodd yr angel â hi. (Gweler adnod 29)

1

C Cafodd Mair a'r angel sgwrs. Ysgrifennwch yr enw 'Mair' neu 'Gabriel' yn y blwch o dan y swigen, i ddangos pwy oedd yn siarad.

Byddi yn esgor ar Fab.

Dyma lawforwyn yr Arglwydd.

Henffych well.

Sut y digwydd hyn?

Paid ag ofni!

Gelwi ef Iesu.

Bydded i mi yn ôl dy air di.

7

Dywedodd Gabriel wrth Mair beth oedd yr enw roedd hi i'w roi ar y Baban.

C Defnyddiwch y cod canlynol i ddarganfod beth oedd geiriau'r angel.



3

Roedd Baban Mair yn mynd i fod yn Berson arbennig iawn.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol

1

C Edrychwch ar adnodau 32 a 33 ac aildrefnwch y geiriau yn y brawddegau canlynol.

Byddai'r Baban newydd yn NREFIN _ _ _ _ _ _ fel Dafydd, rhyw ddydd.

Byddai'n STYAERUN _ _ _ _ _ _ _ _ am byth.

2

Byddai Mair yn rhoi genedigaeth i Fab Duw. Dywedodd Gabriel wrthi "Ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw."

C Gan ddechrau gyda'r llythyren "O" yn y gornel isaf ar y dde, fedrwch chi ddod o hyd i eiriau adnod 37?

Tynnwch linell i gysylltu'r llythrennau. Peidiwch â defnyddio'r un llythyren fwy nag unwaith. Dylai pob llythyren gyffwrdd â'r llythyren nesaf yn y frawddeg.

M	A	N	Y	B
H	O	Y	D	I
I	S	M	D	N
B	L	I	D	D
Y	G	W	Y	D
D	A	R	E	H
	D	U	W	O

Ysgrifennwch y geiriau yn y blwch isod.

2

Roedd yr Iddewon yn disgwyl am y Meseia. Gwyddai Mair bellach mai hi fyddai mam y Meseia. Roedd hi'n credu geiriau Duw ac roedd yn barod i dderbyn cynllun Duw ar gyfer ei bywyd. Dyma fyddai un o'r gwyrthiau mwyaf erioed! Ydych chi'n barod i gredu Gair Duw a derbyn Ei Fab fel eich Gwaredwr, yn ogystal â'i gynllun Ef ar gyfer eich bywyd chi?

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 1-7

ADNOD
ALLWEDDOL
2 Corinthiaid 8:9

Gwers 3 Gorfoledd y Nadolig! – Genedigaeth Iesu

Roedd Duw wedi dweud y byddai'r Meseia yn cael Ei eni ym Methlehem, ond roedd Mair a Joseff yn byw yn Nasareth, 70 milltir i ffwrdd. Pan benderfynodd Cesar Awgwstws, yr Ymerawdwr Rhufeinig, gynnal cyfrifiad o bawb oedd yn byw yn yr ymerodraeth, roedd e, heb yn wybod iddo, yn helpu i gyflawni cynllun Duw! Bu'n rhaid i Mair a Joseff deithio i Fethlehem i gofrestru. Tra'r oedden nhw yno, ganwyd y Baban yn yr union ddinas roedd Duw, rhyw 700 mlynedd ynghynt, wedi addo y byddai hynny'n digwydd.

C **Ar ôl darllen pob brawddeg, rhowch gylch o amgylch y llythyren gywir o dan GWIR neu ANWIR:**

	GWIR	ANWIR
Roedd yn rhaid i bawb fynd i'w dref ei hun	C	I
Aeth Joseff o Fethlehem i Nasareth	O	R
Aeth Mair gyda Joseff	I	P
Ganwyd y Baban yn Nasareth	E	S
Doedd dim lle yn y llety	T	F

3

Pa air sy'n cael ei sillafu gan y llythrennau a gylchwyd? _ _ _ _ _

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym ble'r aeth Joseff?** Adnod _____

Pa adnod sy'n dweud wrthym i Mair fynd gydag e? Adnod _____

Pa adnod sy'n dweud wrthym mai Bethlehem yw dinas Dafydd neu fod y Brenin Dafydd wedi ei eni yno? Adnod _____

Pa adnod sy'n dweud wrthym fod y Baban wedi Ei ddodi mewn preseb? Adnod _____

4

CROESAIR

Cliwiau I Lawr

1. Roedd Cyrenius yn llywodraethu ar _ _ _ _ _.
2. Dodwyd y Baban yn hwn.
3. Yr ardal lle roedd Bethlehem.
6. Roedd y lle hwn yn llawn.

Cliwiau Ar Draws

4. Awgustws _ _ _ _ _ oedd enw'r dyn a roddodd orchymyn.
5. Yr ardal lle'r oedd Nasareth.



6

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

3

Er i Iesu gael Ei eni'n faban, Mab Duw oedd Ef. Daeth o'r Nefoedd i'r ddaear er mwyn Iddo dyfu'n ddyn a marw. Daeth i'r byd yn dlawd a dododd Mair Ef i orwedd mewn preseb – cafn sy'n dal bwyd anifeiliaid!

C **Pam nad oedd modd iddyn nhw aros yn y llety? Cymerwch lythyren gyntaf pob llun i gael yr ateb.**

1

Doedd ____ ____ ____ _____ ____

C **Defnyddiwch y cod sy'n dilyn i ddarganfod beth wnaeth Duw.**

a=1, b=2, c=3, ch=4, d=5, dd=6, e=7, f=8, ff=9, g=10, ng=11, h=12, i=13, l=14, ll=15, m=16, n=17, o=18, p=19, ph=20, r=21, rh=22, s=23, t=24, th=25, u=26, w=27, y=28

18/17/5 19/1/17 6/1/7/25 3/28/8/14/1/27/17/13/1/5 28/21 1/16/23/7/21,

_ _ _ _

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 8-20

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 11

Gwers 4 Gorfoledd y Nadolig! – Neges yr Angel

Roedd bugeiliaid yn y caeau ar y noson pan anwyd yr Arglwydd Iesu. Roedden nhw'n gwylio'u praidd. Wydden nhw ddim y bydden nhw'n dod yn enwog yn y canrifoedd oedd i ddilyn. Y rheswm dros hyn, wrth gwrs, oedd mai nhw oedd y bobl gyntaf i glywed am eni'r Baban rhyfeddol!

C **Rhowch linell drwy'r atebion anghywir i'r cwestiynau isod.**

Beth oedd y bugeiliaid yn ei wneud pan welsant yr angel?

Bwyta Cysgu Edrych ar ôl eu defaid

Pa adeg o'r dydd oedd hi?

Nos Yn gynnar yn y bore Canol dydd

2

Cafodd Mair fraw pan siaradodd Gabriel â hi.

C **YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch sut roedd y bugeiliaid yn teimlo pan siaradodd yr angel â nhw.**

2

C **Aildrefnwch y geiriau yn y cwmwl ac ysgrifennwch neges yr angel i'r bugeiliaid yn y blwch oddi tano.**



2

C **Beth, yn ôl yr angel, oedd y tri enw, neu deitl, fyddai gan y Baban?**

3

C **YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch sut y byddai'r bugeiliaid yn gwybod eu bod wedi dod o hyd i'r Baban cywir.**

2

C **Copïwch y geiriau a lefarodd neu a ganodd yr angylion, yn ôl adnod 14.**

2

C **Gosodwch rif ym mhob blwch i ddangos pa lun sy'n gysylltiedig â'r canlynol.**



1 Y Bugeiliaid

Dywedodd ☐,"Gadewch inni fynd i Fethlehem".

Roedd y ☐ yn rhyfeddu.

Gwelodd ☐ y Baban yn y preseb.

Dychwelodd y ☐ gan ogoneddu a moli Duw.

Cofiodd ☐ yr holl bethau hyn a myfyriodd arnynt.



3 Mair

Dywedodd ☐ wrth eraill am y Baban.



2 Y Bobl

6

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

1

Gallwn ddychmygu llawenydd Mair, Joseff a'r bugeiliaid pan welsant y Mab roedd Duw wedi Ei addo. Mae'r Nadolig yn amser i roi a derbyn rhoddion, yn amser i lawenhau a bod yn ddiolchgar. Yr Arglwydd Iesu yw rhodd fwyaf Duw i ni. Ydych chi wedi credu mai Ef yw Mab Duw ac wedi Ei dderbyn fel eich Gwaredwr drwy ymddiried Ynddo? Beth am i chi ddiolch Iddo nawr am ddod i'r byd, ac yna fe gewch chi brofi gwir orfoledd y Nadolig!

"Diolch i Dduw am Ei rodd anhraethadwy."

2 Corinthiaid 9: 15.

Nadolig Llawen Iawn i Chi!

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

SAFON 3 B12

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120